**Eitem agenda: 11**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**21 MAWRTH 2005**

**NEWIDIADAU I GYLCH GWAITH Y PANEL GWEITHREDOL**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Cytuno ar newidiadau i gylch gwaith y Panel Gweithredol yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol a'r gweithdrefnau disgyblu, galluogrwydd a chwyn a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2005.

**Cefndir**

2 Mae cylch gwaith y Panel Gweithredol yn cyfeirio ddwywaith at Reoliadau Gwasanaeth Tân (Disgyblaeth) 1985. Peidiodd y rheoliadau â bod mewn grym ym mis Tachwedd 2004 pan ddiddymwyd Deddf Gwasanaethau Tân 1947.

3 Yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr, cymeradwyodd y Panel Gweithredol weithdrefnau newydd ar gyfer ymdrin ag achosion disgyblu, galluogrwydd a chwyn. Mae'r rhain yn berthnasol i holl weithwyr yr awdurdod ac yn nodi'r amgylchiadau lle byddai'r Panel Gweithredol yn ymwneud ag achos.

**Cyngor**

4 Mae'n rhaid diwygio cylch gwaith y Panel Gweithredol i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Rhestrir y newidiadau yn yr argymhelliad isod.

**Argymhelliad**

5 Bod yr Awdurdod Tân yn cytuno i'r newidiadau canlynol i gylch gwaith y Panel Gweithredol:

5.1 Dileu paragraffau 2.3.ii, 2.3.vii a 2.3.viii;

5.2 Mewnosod yn lle paragraff 2.3.ii y geiriau "bod yn banel priodol i wrando ar gamau disgyblu a ddygir yn erbyn y Prif Swyddog Tân";

5.3 Mewnosod yn lle paragraffau 2.3.vii a 2.3.viii "bod yn banel apêl fel a nodir yng ngweithdrefnau'r awdurdod ar ddisgyblu, galluogrwydd a chwyn".

5.4 Ail-rifo'r paragraffau dilynol.